**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2020 am 12.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P K Jones | S M Jones |
| W G Lewis | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |
| Sam Pritchard | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): K M Griffiths a/ac D W W Thomas

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cynigion Drafft Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**

Esboniodd y Cynghorwyr Elliot King a Sam Pritchard, Aelodau'r Cabinet dros y Gwasanaethau Plant, Dave Howes, Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol, a Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, y cynigion cyllidebol arfaethedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan amlygu'r prif faterion ac ateb cwestiynau.

4 **Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion**

Cytunodd y panel ar y barn a'r argymhellion canlynol ar y cynigion cyllidebol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr hoffai eu cyflwyno i'r Cabinet:

- Mynegodd y panel bryder ynghylch y risgiau sy'n gysylltiedig â grantiau, yn benodol y risg gynyddol wrth i'r cyngor ddibynnu mwyfwy ar arian grant.
- Roedd y panel yn hapus â ffocws cyffredinol y gyllideb sef blaenoriaethau'r cyngor hwn.
- Nododd y panel y gostyngiad go iawn o £1.35m yn arian craidd Tlodi a'i Atal yn y flwyddyn ariannol nesaf (y mae'r mwyafrif ohono'n mynd i'r Gwasanaethau Plant), a chynnydd o £1.6m i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a fydd yn arwain at gynnydd o £0.25 yn y gyllideb gyffredinol o £42m. Dyma gynnydd bach iawn o'i gymharu â chynnydd y Gwasanaethau i Oedolion, ac mae'n gynnydd bach iawn o'i gymharu â'r cynnydd i'r GCR.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

Bydd y cynullydd yn cyflwyno barn y panel, ar y cyd â chynullyddion paneli eraill, i'r Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid, sy'n cwrdd ar 19 Chwefror. Yna bydd cynullydd y Panel Gwella Gwasanaethau a Chyllid mynd i gyfarfod y Cabinet ar 20 Chwefror i gyflwyno barn gyfunol paneli perfformiad craffu ac ysgrifennu llythyr at Aelod y Cabinet.

The meeting ended at 1.00 pm.